Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

Urdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd** : | Cynorthwyydd Arlwyo a Glanhau | **Lleoliad** : | Gwersyll Pentre Ifan |
| **Adran** : | Cegin a Llety | **Cyflog** : | Gweithredol 1: £12.60 yr awr |
| **Oriau Gwaith** : | Achlysurol | **Cytundeb** : | Achlysurol |
| **Yn adrodd i** : | Pennaeth Pentre Ifan | **Rheolaeth Llinell** : | Dim |

**Prif bwrpas y swydd**:

Bydd angen i'r cynorthwyydd arlwyo / glanhau ymgymryd ag amryw o ddyletswyddau Arlwyo a Glanhau ar gyfer darparu gwasanaeth cyflawn.

---

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**:

1. Cyflawni dyletswyddau glanhau cyffredinol fel rhan o'r tîm glanhau yn ôl y galw yn y gwersyll, a chyfrannu at gynnal safonau uchel y safle.
2. Sicrhau fod llety, ystafelloedd cyfarfod ac ardaloedd cyhoeddus y gwersyll yn lân cyn i'r gwersyllwyr gyrraedd ac yn ystod eu harhosiad.
3. Cadw stordai yn daclus - ailgyflenwi stoc.
4. Chwarae rhan hanfodol i gynnal lefelau uchel o lanweithdra yn y Gwersyll.
5. Dyletswyddau gweini prydau bwyd a gweithdrefnau gegin.
6. Sicrhau a chynnal safon uchel o hylendid a glanweithdra gyda'r cyfarpar a'r amgylchedd cegin yn ogystal â'r ardaloedd paratoi bwyd a'r storfeydd cysylltiedig, gweithredu Amserlen Glanhau.
7. Sicrhau fod y ardal fwyta a'r gegin yn lân ac yn daclus cyn gorffen gwaith.
8. Gweithio o fewn terfynau amser.
9. Hysbysu'r Rheolwr a staff cynnal a chadw am unrhyw beth sydd o'i le neu angen sylw, os ydynt yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch neu'r cyhoedd, dylid sôn amdanynt yn syth.
10. Ymgymryd ag unrhyw gyfleoedd hyfforddi yn ôl y gofyn, a chymryd cyfrifoldeb am ddysgu a datblygiad personol.
11. Mynychu cyfarfodydd tîm a chynnig argymhellion ar gyfer gwelliannau a datblygiadau.
12. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr.
13. Chydymffurfio â gofynion Hylendid Personol, Diogelwch Bwyd a gofynion Iechyd a Diogelwch, hyn yn cynnwys diheintio'r gwersyll – gweithio'n ddiogel.
14. Defnyddio peiriannau yn ddiogel - dilyn cyfarwyddiadau C.O.S.H.H. - Diogelwch Cwsmer. Gweithredu Rheolau Tân.
15. Ymarfer safon uchel o lendid personol, golchi a diheintio dwylo yn dda, ac yn aml

yn ystod gwaith.

16. Nodi'r wybodaeth sydd ar yr hysbysfyrddau - trefniadau gwasanaeth, niferoedd, anghenion diet arbennig, hysbysiadau iechyd a diogelwch / diogelwch bwyd, rota gwaith a.y.b.
17. Darparu gofal cwsmer da, rhoi gwybodaeth a chynorthwyo ein cwsmeriaid mewn ffordd gymwynasgar a chyfeillgar.

---

**Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

---

**<u>Hanfodol:</u>**

1. Profiad o weithio fel rhan o dîm / neu ar liwt eu hunan.
2. Agwedd egnïol a brwdfrydig tuag at waith.
3. Sgiliau effeithiol wrth ofalu am gwsmeriaid, agwedd gyfeillgar a chymwynasgar.
4. Parodrwydd i fod yn hyblyg ar achlysuron am amserau shift.
5. Rhaid bod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
6. Gwybodaeth am Ddiogelwch Bwyd, Cymorth Cyntaf ac Iechyd a Diogelwch (bydd cyfle i gael hyfforddiant yn y maes hwn).
7. Arddangos y gallu i gynllunio llwyth gwaith o gwmpas digwyddiadau a gynhelir yn y gwersyll.
8. Ymagwedd hyblyg tuag at weithio, gyda synnwyr cyffredin i ymdrin â sefyllfaoedd sy'n codi.
9. Ymddangosiad taclus.
10. Bod yn ddibynadwy a phrydlon.
11. Bod yn gwrtais a meddu ar agwedd broffesiynol.

**<u>Dymunol:</u>**

1. Profiad o weithio mewn maes glanhau ac arlwyo.
2. Cymwysterau neu ymwybyddiaeth o reolau diogelwch bwyd / Iechyd a Diogelwch a Chymorth Cyntaf.

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**:  Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

---

**Hyblygrwydd**:  Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

---

**Adolygiad**:  Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Chwefror 2022 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

---

**Gwiriadau Perthnasol**:  Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).

---